



Coeden
Ddarllen
Rhydychen


Gwlad y Deinosoriaid

Roderick Hunt


Alex Brychta



Tylluanod



DRAKE



'Rydyn ni'n mynd ar antur hud,'

meddai Dids.

Aeth y plant drwy ddrws

y tŷ hud.

'O help!' meddai Nadim.




Aeth yr hud â'r plant i
wlad y deinosauriaid.
'Dydw i ddim eisiau'r antur hon,' meddai Nadim.
'Dydw i ddim eisiau cyfarfod deinosor.'

Hedfanodd gwas y neidr heibio.
'Edrychwch ar hwn,' meddai Dids.
'Gwas y neidr enfawr yw e.
Am un mawr!'




Cafodd Dids hyd i ôl troed.
Ôl troed enfawr oedd e.
'Dewch i edrych,' meddai Dids.
'Rhaid mai ôl troed deinosor yw e.'




Tynnodd Cad lun yr
ôl troed enfawr.
'Gallaf fynd â'r llun hwn i'r
ysgol,' meddai hi.



Cafodd Nadim hyd i wyau.
Roedden nhw'n wyau mawr.
'Rhaid mai wyau deinosor ydyn nhw,'
meddai.



Dechreuodd un o'r wyau gracio.
'Mae'n mynd i ddeor,' meddai Cad.
Daeth rhywbeth allan o'r wy.
'Deinosor bach yw e,' meddai Nadim.



Hedfanodd rhywbeth heibio.
Roedd ofn ar y plant.
'Beth yw e?' gofynnodd Dids.
'Wn i ddim,' meddai Cad.


Rhedodd y plant.
'Deinosor sy'n hedfan yw e,' meddai
Nadim, 'ac mae e'n un mawr.
Dewch inni guddio.'



Hedfanodd y deinosor i lawr
at yr wyau.
Cododd y deinosor bach
yn ei ddannedd.




'O na!' meddai Cad.
'Mae'n mynd i'w fwyta.'
Cododd ddarn o bren a rhedeg allan.
'Cer o'ma!' bloeddiodd.



Hedfanodd y deinosor i ffwrdd, ond
roedd Dids yn flin gyda Cad.
'Roeddit ti'n wirion,' meddai.
'Gallai fod wedi dy gael di.'




Rhedodd Wilff yn ei flaen a dringodd fryn.
Roedd am edrych am apatosor.
'Dere fan hyn, Cad,' galwodd.
'Cei dynnu llun.'



Nid bryn roedd Wilff wedi ei ddringo.
Roedd wedi dringo ar ddeinosor ac
roedd yn anferth.
Edrychodd ar Wilff.

Roedd ofn ar Wilff.
'O help!' meddai.
Neidiodd i lawr a rhedeg.
'Dewch inni fynd o'ma,' galwodd.



'Paid â bod yn ofnus,' meddai Dids.

'Apatosor yw e.


Mae e fel yr un yn yr amgueddfa.

Wnaiff e mo'n brifo ni.'

Tynnodd Cad lun ohono.

'Am wddf hir sydd ganddo ac
am gynffon hir!' meddai.


'Mae angen camera mwy o faint arnaf.'




Rhedodd yr apatosor i mewn i'r dŵr.
'Am sblash enfawr!' meddai Wilff.
Roedd golwg ofnus ar Nadim.
'O help!' galwodd.



Roedd deinosor arall yn dod ac
roedd golwg ffyrnig iawn arno.
'Dewch inni fynd o'ma,' bloeddiodd Dids.



Tynnodd Cad lun.
'Dere ymlaen,' gwaeddodd Dids.
'Paid ag aros i wneud hynny.
Gallai hwn ein bwyta ni!'



Dechreuon nhw redeg i ffwrdd.
Daeth esgid arall Wilff i ffwrdd yn y mwd.
Yn sydyn, dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
'Jyst mewn pryd!' meddai Dids.



Aeth yr hud â'r plant i ystafell
wely Cad.

'Am antur!' meddai Cad.

'Mae gen i luniau da.'




'Dyma'r deinosor ffyrnig,' meddai Dids.

'Dynnaist ti lun ohono?'

'Do,' meddai Cad.

'Dewch inni ddweud wrth Mam a Dad.'



'Tynnais i luniau deinosoriaid,' meddai Cad.

'Do wir?' meddai Dad.

'Wel, mae'n ddrwg gen i ond roddais i
ddim ffilm yn y camera.'

4 Gwlad y Deinosaoriaid

Stori gan
Roderick Hunt

Lluniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Juli Paschalis

Tylluanod Cam 6

- 1 Yn yr Ardd
- 2 Onw a'r Cawr
- 3 Y Wibdaith
- 4 Gwlad y Deinosaoriaid
- 5 Robin Hwd
- 6 Y Gist Drysorau

Tylluanod Cam 7

- 7 Y Blaned Goch
- 8 Ar Goll yn y Jyngl
- 9 Twll yn y To
- 10 Colli Allwedd

Rhagor o Dylluanod Cam 6

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

Rhagor o Dylluanod Cam 7

Y Draffordd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1987
© Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1999
© Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0 86 174251 6

DRAKE

ISBN 0-86174-251-6



9 780861 742516



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 6



Tylluanod

